LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# YR ADBORTH A DDYWEDOCH CHI WRTHYM NI
# DWYRAIN LLANELLI

## RHAGYMADRODD

Yn ddiweddar treuliodd Rhanbarth Gorllewin Cymru amser mewn gwahanol leoliadau ar draws ardal dwyrain Llanelli. Fe wnaethon ni siarad ag ystod eang o bobl a chael dros 160 o drafodaethau gyda gwahanol bobl am eu profiadau o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r sgyrsiau hyn yn allweddol i sicrhau bod lleisiau pobl yn helpu i lunio a gwella gofal ar draws y rhanbarth. Boed yn rhannu canmoliaeth neu'n tynnu sylw at feysydd i'w newid, mae pob stori'n bwysig. Dywedodd rhai pobl wrthym am bethau oedd yn dda a dywedodd rhai wrthym am bethau y mae'n rhaid iddynt newid a gwella.



# YR HYN A GLYWSOM

## MEDDYGON TEULU A DEINTYDDION

Rhannodd llawer o bobl bryderon ynghylch parhad gofal. Roeddent yn teimlo eu bod yn aml yn gweld gwahanol feddygon neu nyrsys ac yn poeni y gallai hyn arwain at anghysondeb yn eu gofal.



Dywedodd sawl person wrthym ei bod hi’n dal yn anodd cael apwyntiad. Teimlai rhai hefyd fod apwyntiadau weithiau'n cael eu brysio.



Dywedodd rhai pobl fod eu meddygfa, ar adegau, wedi gwneud camgymeriadau neu wedi darparu gwybodaeth aneglur am eu hiechyd. Nid oedd cleifion yn gwerthfawrogi cael eu gofyn gan feddyg 'beth hoffech chi i mi ei wneud' neu 'beth sy'n bod arnoch chi' gan nad ydyn nhw wedi cael hyfforddiant meddygol ac wedi mynd at y meddygon i gael diagnosis ac i gael triniaeth.



Clywsom hefyd ar sawl achlysur fod staff y dderbynfa yn cael eu hystyried yn anghymwynasgar, a bod cleifion yn teimlo nad oedd eu cyfrinachedd bob amser yn cael ei barchu wrth drafod eu pryderon wrth y ddesg dderbynfa o flaen cleifion eraill.



Deintyddion: roedd llawer o bobl yn rhwystredig na allent gael deintydd GIG ac yn poeni am eu dannedd a chostau mynd yn breifat.



# YR HYN A GLYWSOM

## OEDRANIAETH

Rhannodd sawl aelod o'r gymuned eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu hanwybyddu neu eu trin yn wahanol oherwydd eu hoedran. Roedd y profiad hwn yn aml yn cael ei adlewyrchu mewn sylwadau fel, “peidiwch â mynd yn hen.”

## CYFATHREBU

Fe wnaethon ni siarad ag aelodau o'r gymuned fyddar a rannodd bryderon am eu profiadau mewn lleoliadau gofal iechyd. Roeddent yn teimlo nad oedd meddygon, nyrsys a derbynyddion yn aml yn meddwl digon am sut i gyfathrebu'n effeithiol â nhw.

Er bod meddygfeydd yn defnyddio ap o'r enw *Relay* ar hyn o bryd i gefnogi cyfathrebu, clywsom nad oedd y derbynyddion yn ddigon amyneddgar weithiau. Yn benodol, nid oeddent bob amser yn aros i'r dehonglydd ymuno â'r alwad, ac mewn rhai achosion hyd yn oed yn awgrymu eu bod yn gweiddi er mwyn i'r claf allu eu clywed.

Gadawodd y dull hwn gleifion yn teimlo'n rhwystredig a heb gefnogaeth. Teimlwyd yn gryf y byddai staff ar draws y bwrdd iechyd yn elwa o gymryd rhan mewn hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddardod, gan sicrhau bod cyfathrebu'n barchus, yn gynhwysol, ac yn hygyrch i bawb.

# YR HYN A GLYWSOM

## GOFAL PLANT

Dywedodd rhieni wrthym eu bod yn teimlo nad oes digon o weithwyr gofal plant ac ymwelwyr iechyd, ac nad oes ganddyn nhw neb i rannu eu pryderon gyda neu i ofyn cwestiynau pwysig am ddatblygiad eu plant.

Tynnodd rhieni sylw hefyd at y ffaith eu bod yn colli allan ar gerrig milltir allweddol, gan nad yw babanod yn cael eu pwyso'n rheolaidd. Heb hyn, mae teuluoedd yn ansicr ynghylch a yw eu plant yn tyfu ar gyfradd iach.

Cynigiwyd awgrymiadau y dylai'r bwrdd iechyd ystyried uwchsgilio staff presennol i helpu i lenwi'r bwlch. Yn ogystal, argymhellwyd y dylid annog staff sy'n agosáu at oedran ymddeol i aros yn eu swyddi am flwyddyn neu ddwy ychwanegol, fel mesur dros dro i leddfu'r heriau recriwtio.

Clywsom adborth cadarnhaol ar gyfer Canolfan Integredig Plant Llwynhendy, bydwragedd cymunedol, y ward famolaeth yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili ac ymwelwyr iechyd.



# YR HYN A GLYWSOM

## YSBYTAI

**Pryderon ynghylch Cynllunio Rhyddhau**

Roedd nifer o straeon lle'r oedd pobl yn teimlo nad oedd eu rhyddhau o'r ysbyty wedi'i gynllunio'n dda nac yn ddiogel. Gadawodd hyn rai cleifion mewn sefyllfaoedd agored i niwed ar ôl iddynt gael eu rhyddhau adref, gan godi pryderon ynghylch parhad gofal a chymorth.

**Priodoldeb Bwyd Ysbyty**

Clywsom hefyd fod rhai pobl yn teimlo nad oedd opsiynau bwyd ysbyty yn briodol ar gyfer eu hanghenion iechyd. Er enghraifft, dywedodd cleifion a oedd yn gwella o drawiad ar y galon eu bod wedi cael cynnig pysgod a sglodion, tra bod eraill â diabetes yn teimlo nad oedd y bwyd a ddarparwyd yn bodloni eu gofynion dietegol.

## GWASANAETH CLUDO CLEIFION DIFRYS (NEPTS)

Adroddodd cleifion fod cludiant weithiau'n cael ei ganslo am 4yh y diwrnod cyn eu hapwyntiad, gan eu gadael heb amser i aildrefnu teithio amgen. Disgrifiodd eraill sefyllfaoedd lle cyrhaeddodd cludiant yn hwyr, gan achosi iddynt gyrraedd eu hapwyntiadau ar ôl yr amser a drefnwyd. Yn aml, arweiniodd hyn at geryddu cleifion gan staff yr ysbyty, er gwaethaf yr oediadau oedd y tu hwnt i'w rheolaeth. Un pryder sylweddol a godwyd oedd bod cleifion yn ofni y gallent gael eu tynnu oddi ar restrau ymgynghorwyr neu golli gofal hanfodol, nid oherwydd eu gweithredoedd eu hunain, ond oherwydd canslo neu oedi munud olaf gan NEPTS. Mae'r adborth hwn yn tynnu sylw at y pryder a'r straen a achosir pan fydd gwasanaethau trafnidiaeth yn methu â diwallu anghenion cleifion. Mae'n bwysig bod y materion hyn yn cael eu datrys fel y gall cleifion fynychu apwyntiadau'n ddibynadwy a heb ofni colli mynediad at ofal iechyd hanfodol.

## MATERION ERAILL

Roedd yna ystod eang o faterion eraill ynghylch amseroedd aros, adrannau damweiniau ac achosion brys, parcio ac iechyd meddwl a gasglwyd gennym.

## BETH SY'N DIGWYDD NESAF

Mae eich barn yn bwysig iawn i ni. Mae pob darn o adborth, boed yn awgrym, pryder, neu sylw, yn cael ei ystyried yn ofalus a'i ddefnyddio i nodi meysydd lle gellir gwella gwasanaethau. Byddwn yn siarad yn ffurfiol â'r GIG a Darparwyr Gofal Cymdeithasol gan sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed a'i adlewyrchu yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar y gymuned. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf eto pan fyddwn wedi clywed yn ôl gan y sefydliadau hyn.







## LLAIS GORLLEWIN CYMRU

Yn cwmpasu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bobl sy'n byw yn:

- Sir Gaerfyrddin
- Ceredigion
- Sir Benfro

ymholiadaugorllewincymru@llaiscymru.org

01646 697 610

@LlaisWestWales